RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 71/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 11/07/2023

# Adolygiad o beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Cefndir

1.1 Nod yr ymchwil hon oedd adolygu peilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru ('y gronfa' / 'y peilot') i ddarparu tystiolaeth i ddylanwadu ar drefniadau'r maes hwn yn y dyfodol.

1.2 Yn 2021-22, comisiynodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru gyda'r nod o alluogi pobl anabl i sefyll am swyddi etholedig. Rhoddwyd y peilot ar waith yng Nghymru i ariannu addasiadau rhesymol a chymorth i ymgeiswyr anabl oedd yn ceisio cael eu hethol yn etholiad i Senedd Cymru 2021 (Cam 1) ac yn etholiadau llywodraeth leol 2022 (Cam 2). Dyma'r tro cyntaf i ddarpariaeth o'r fath fod ar gael i ymgeiswyr oedd yn sefyll mewn etholiad ar lefel cyngor cymuned yn y Deyrnas Unedig.

### 2. Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd yr adolygiad gan Opinion Research Services (ORS) rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023. Roedd yr ymchwil hon yn gwbl ansoddol ei natur, gyda'r nod o gael adborth manwl gan randdeiliaid, aelodau'r panel ac ymgeiswyr i roi cipolwg ar gryfderau a gwendidau'r peilot.

2.2 Rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022, cwblhaodd ORS adolygiad cyffyrddiad ysgafn o ddogfennau allweddol er mwyn deall y cyd-destun ar gyfer y peilot yng Nghymru a llywio'r gwaith o ddatblygu cynllun y prosiect a'r cwestiynau i'w cynnwys yng nghamau casglu data'r adolygiad.

2.3 Cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu archwiliadol hefyd yn rhithwir, gyda phersonél strategol o Lywodraeth Cymru ac Anabledd Cymru yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r peilot.

2.4 Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau manwl â rhanddeiliaid gydag 13 o gyfranogwyr rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023. Cymerodd chwe aelod panel a adolygodd ac a asesodd geisiadau gan ymgeiswyr ran yn y cyfweliadau manwl hyn. Roedd rhanddeiliaid eraill yn cynnwys cynrychiolwyr o

Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Comisiwn Etholiadol, Inclusion Scotland, a chynghorwyr polisi. Yn ogystal, cynhaliwyd chwe chyfweliad manwl gydag ymgeiswyr a ymgeisiodd am y gronfa.

2.5 Derbyniodd pob cyfranogwr ystod o gymorth gan y gronfa er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn well, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gyllid ar gyfer costau teithio, cynorthwywyr personol neu weithwyr cymorth, a, thechnoleg symudedd.

## 3. Prif ganfyddiadau

**Roedd Aelodau'r Panel yn gyffredinol yn gefnogol o'r broses weithredol, ond nodwyd rhai meysydd lle gellid gwneud gwelliannau**

3.1 Teimlai aelodau'r panel yn gadarnhaol am y broses ymgeisio yr oedd yn rhaid iddynt ei chwblhau i wneud cais am y rôl, gan ei chanmol am ei hygyrchedd am y ffaith y gallai ymgeiswyr ffonio Anabledd Cymru i ofyn am gymorth neu drafod unrhyw faterion a allai fod ganddynt gyda'r ffurflen.

3.2 Dywedodd rhai o aelodau'r panel eu bod wedi gweld y cyfle wedi'i hysbysebu gan Anabledd Cymru, ond dysgodd y rhan fwyaf amdano ar lafar gan aelodau Anabledd Cymru.

3.3 Teimlwyd bod amrywiaeth profiad y panel o rwystrau anablu o fudd mawr i'r gronfa, gan ganiatáu i benderfyniadau ar ystod o geisiadau fod yn wybodus.

3.4 Cytunodd aelodau'r panel fod y rôl yn unol â'r disgwyl i raddau helaeth, gan gynnwys yn bennaf darllen ac adolygu cyflwyniadau am gyllid gan ymgeiswyr a phenderfynu p'un a oedd ymgeiswyr yn gymwys i gael cymorth ac, os felly, beth ddylai'r cymorth hwnnw fod.

3.5 Teimlai rhai y gellid gwella'r panel yn y dyfodol drwy sicrhau bod gan yr aelodau fwy o brofiad cyfunol o'r gronfa neu gynlluniau tebyg.

3.6 Roedd rhanddeiliaid ac ymgeiswyr o blaid fersiwn barhaol o'r cynllun lle gallai ymgeiswyr gael cymorth penodol yn gynharach, fel y gallent gael eu hyfforddi i ddefnyddio meddalwedd/technoleg a roddwyd iddynt cyn cyfnod yr ymgyrch.

3.7 Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio fersiwn barhaol o'r gronfa i addysgu darpar ymgeiswyr ag anableddau am y prosesau o sefyll am swydd etholedig a pha gymorth y gallent ei ddisgwyl yn rhesymol.

**Roedd ymgeiswyr yn hynod gadarnhaol am y broses ymgeisio a'r cymorth a gawsant, ond roeddent yn cael trafferth gydag amserlenni**

3.8 Teimlai'r mwyafrif llethol o ymgeiswyr ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth am y gronfa ar ôl iddynt gael gwybod amdani. Dywedwyd bod gwybodaeth ar-lein yn hawdd i'w chanfod, a dywedodd llawer eu bod yn gallu ffonio Anabledd Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth dros y ffôn.

3.9 Roedd ymgeiswyr yn gallu cael cymorth gyda'u ceisiadau gan Anabledd Cymru, naill ai drwy ofyn am gyngor/arweiniad dros y ffôn neu drwy lenwi'r ffurflen gydag aelod o Anabledd Cymru mewn cynhadledd fideo. Teimlwyd bod hyn yn hanfodol i geisiadau llawer o ymgeiswyr.

3.10 Derbyniodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r cymorth y gwnaethant gais amdano a gwnaethant deimlo mai'r cymorth oedd y gwahaniaeth rhwng p'un a allent sefyll am swydd ai peidio. Fodd bynnag, teimlai nifer o ymgeiswyr na chawsant y cymorth llawn y gwnaethant gais amdano oherwydd y diffyg amser rhwng eu cais a dechrau'r cyfnod ymgyrchu.

3.11 Yn ogystal, teimlai rhai nad oedd yn gwbl glir beth y gellid ei ystyried yn addasiad rhesymol. O ganlyniad, roedd rhai'n teimlo'n ansicr ynghylch beth y gallent wneud cais amdano.

3.12 Roedd rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn teimlo'n gyffredinol na fyddai'n bosibl gwastatáu'n llawn rhwng ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y peilot wedi gwastatáu'r maes i raddau rhesymol.

**Roedd rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn tueddu i deimlo y byddai angen ymdrechion ar wahân i'r gronfa i gefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig eraill i sefyll am swyddi etholedig**

3.13 Teimlai rhanddeiliaid ac ymgeiswyr yn gyffredinol nad oedd natur y gronfa yn gwbl berthnasol i nodweddion gwarchodedig eraill, gan fod y rhwystrau y maent yn eu hwynebu yn wahanol i raddau helaeth i bobl anabl.

3.14 Mynegodd y cyfranogwyr felly eu dymuniad i'r gronfa barhau i fod yn fenter sy'n canolbwyntio ar anabledd, tra gellid dilyn llwybrau eraill i helpu ymgeiswyr â nodweddion gwarchodedig eraill i oresgyn eu rhwystrau priodol.

## Prif argymhellion ac ystyriaethau pellach

3.15 Ar sail canfyddiadau'r ymchwil hon, teimlwn y dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid fyfyrio ar y canlynol:

- Dylai darpariaeth i ymgeiswyr anabl sy'n ceisio etholiad yng Nghymru fod ar gael yn y dyfodol.
- fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth, dylid ymdrechu i ddarparu offer ategol neu hyfforddiant rhagarweiniol cyn i'r arian gael ei dynnu i lawr.
- Ni ddylai'r gronfa fod yn annibynnol. Dylai fod yn rhan o becyn ehangach, mwy cyfannol, o gymorth ac arweiniad gyda brand clir yn gysylltiedig ag ef.
- Dylid ymestyn y pecyn ehangach i unigolion â nodweddion gwarchodedig eraill / heriau eraill.

Awduron: Angharad Davies, Alice Dawkins a Matt Lewis-Richards (Opinion Research Services)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Davies, A., Dawkins, A. a Lewis-Richards, M. (2023) Adolygiad o Beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 71/2023>

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-beilot-y-gronfa-mynediad-i-swyddi-etholedig-cymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-83504-254-0